


## CYNGOR ARCHIFAU A CHOFNODION CYMRU:

# AGOR YR ARCHIFAU

## DATHLU ARCHIFAU YNG NGHYMRU

Archifau Cymru
Archives Wales

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government




## RHAGAIR Y CADEIRYDD

**Croeso i Agor yr Archifau sydd wedi'i gyhoeddi gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru (CACC) i sôn mwy wrthych chi am wasanaethau archifau gwych Cymru a'r gwaith y maent yn ei wneud.**

Mae gwasanaethau archifau Cymru'n gofalu am hanes cofnodedig Cymru, boed yn rhywbeth a gynhyrchwyd gannoedd o flynyddoedd yn ôl â chwilsyn ar femrwn neu'n rhywbeth a grëwyd ddoe yn electronig. Mae ein casgliadau'n cynnwys deunydd tystiolaethol unigryw y gellir ei gymhwyso at sawl defnydd gwahanol – mewn ymchwiliadau cyhoeddus ac achosion cyfreithiol, mewn ymchwil academaidd, i ddangos i'n plant sut roedd pethau yn y gorffennol, ac weithiau – yn aml – o ran hwyl yn unig

***Mynediad y cyhoedd at ddogfennau a chofnodion rhyfeddol sydd wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud.***

Mae'r llyfryn hwn yn dangos i chi sut mae CACC yn cefnogi gwaith timau archifau a chofnodion ar draws Cymru benbaladr wrth gaffael, cadw a rhoi mynediad at ddogfennau gwerthfawr sy'n cynrychioli ein hanes ni a hanes ein cenedl.

**Helen Palmer**
Archifydd y Sir a Rheolwr Gwybodaeth a Chofnodion,
Archifdy Ceredigion.
Cadeirydd, Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru

'The Archives Treasure Hoard' gan Archifau Richard Burton ac Ian Vine, Adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau Prifysgol Abertawe



# BETH GALL GWASANAETHAU ARCHIFAU EI WNEUD I CHI?

Mae archifau'n helpu i adrodd stori ein gorffennol a chadw ein cof cyffredin a'n hunaniaeth ddiwylliannol. Maent yn casglu ac yn cadw'n ddiogel gofnodion eich bywyd, eich cymuned, eich busnes, eich cenedl a'ch byd gan eu gwneud yn hygyrch.

Mae archifau'n darparu gwybodaeth neu dystiolaeth o lygad y ffynnon am ddigwyddiadau neu ffigyrau hanesyddol, a gallant gynnwys eitemau megis llythyrau, adroddiadau, cofrestrau, mapiau, ffotograffau a ffilmiau, ffeiliau digidol a recordiadau sain. Mae gwasanaeth archifau yn agos i le bynnag rydych chi yng Nghymru ac mae'r llyfryn hwn yn sôn mwy wrthych chi amdanynt ac am eu gwaith a rhai o'u cyflawniadau'n ddiweddar.

## CYNGOR ARCHIFAU A CHOFNODION CYMRU

Sefydlwyd Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru ym mis Mai 1995 fel corff cynrychioladol i sefydliadau ledled Cymru sy'n ymwneud â gofalu am archifau.

**Nodau'r Cyngor yw:**

1. **Dylanwadu ar bolisi ynglŷn ag archifau yng Nghymru.**
2. **Dwyn at sylw'r cyhoedd, y llywodraeth neu sefydliadau perthnasol faterion sydd o ddiddordeb ar hyn o bryd ym maes archifau yng Nghymru.**
3. **Darparu canolbwynt i brosiectau cydweithredol ym maes archifau yng Nghymru.**
4. **Dwyn ynghyd sefydliadau sy'n ymwneud â gweinyddu archifau yng Nghymru a darparu fforwm iddynt gyfnewid barn yn rheolaidd.**




Mae CACC hefyd yn rheoli cynlluniau grantiau i gefnogi gwaith gwasanaethau sy'n aelodau wrth gadw a darparu mynediad i adnoddau archifol. Mae'r Cynllun Grantiau Cynnal Achredu yn rhoi cymorth i ddatblygu a gwella gwasanaethau'n unol â gofynion y Cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau. Gall cyllid grant gefnogi gofalu am gasgliadau, datblygu'r gweithlu neu waith sy'n ymwneud â mynediad i'r cyhoedd. Mae cyllid penodol hefyd yn cael ei ddarparu drwy grantiau Ymgysylltu â'r Gymuned 'Newid Pethe' i helpu i ehangu mynediad i archifau o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau difreintiedig eraill ar draws Cymru. Cyllidir y cynlluniau grantiau hyn gan Lywodraeth Cymru.

Mae Fforwm blynyddol CACC, a gynhelir bob mis Tachwedd, yn darparu cyfle i staff o wasanaethau archifau ar draws Cymru i gwrdd ac i drafod a chlywed am bob math o faterion sy'n berthnasol i'w gwaith yn y dyfodol.




CIPFA Stats 2013-2014



# MYNEDIAD AR-LEIN
## DOD Â'R ARCHIFAU ATOCH CHI

Un o brif amcanion CACC yw cefnogi prosiectau i wella mynediad ar-lein i adnoddau archifol. Mae 'Cynefin: Mapio Ymdeimlad o Le yng Nhymru' yn brosiect arloesol sy'n digido ac uno dros 1,000 o fapiau degwm Cymru a'u dogfennau cysylltiedig sy'n nodi tirfeddianwyr, deiliaid, defnydd tir ac enwau caeau Cymru yn yr 1840au, cyfnod allweddol wrth iddi ddatblygu o fod yn genedl amaethyddol i fod yn un ddiwydiannol.






Crëwyd mapiau'r degwm i nodi'r taliadau a godid ar ddefnyddwyr tir ac mae'r casgliad hwn o fapiau wedi cael ei gadw a'i ddigido yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn iddynt gael eu hadysgrifio a'u geo-gyfeirio gan wirfoddolwyr sy'n gweithio ar wefan cyfrannu torfol. Unwaith i'r prosiect gael ei gwblhau, gallwch chwilio am yr holl bobl a lleoedd a gofnodir ar y mapiau a'r rhaniadau ar fap degwm unedig o Gymru a bydd modd mynd ato drwy wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru www.llgc.org.uk a Chasgliad y Werin Cymru www.casgliadywerin.cymru

I gefnogi prosiect Cynefin, mae hefyd sawl prosiect lleol ar waith ar draws Cymru sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar fapiau'r degwm.

**HANES CYMUNEDOL HIRAETHOG:**
Dyma brosiect gydag ysgolion a chymdeithasau hanes lleol sy'n ymdrin â sawl dosbarth degwm yn ardal anferth Hiraethog o amgylch pentref Llansannan.

**CRWYDRO COETIR HYNAFOL GŴYR:**
Mae mapiau'r degwm yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am goetiroedd hynafol y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth dros yr angen i'w hamddiffyn. Bydd y prosiect hwn ym mro Gŵyr, dan arweiniad Archifau Gorllewin Morgannwg, yn defnyddio mapiau'r degwm mewn astudiaeth ecolegol o goetiroedd hynafol Gŵyr.

**PEINT O HANES PLÎS!:**
Mae'r prosiect hwn yn defnyddio mapiau'r degwm mewn astudiaeth o hanes tafarnau ledled Ceredigion. Mae'r prosiect yn gofyn am help gan bawb yng Ngheredigion (a thu hwnt) i greu gwefan, arddangosfeydd amgueddfa a thaflenni i dwristiaid a fydd yn sôn wrth y byd am dafarnau Ceredigion a'u hanes. Cewch gymryd rhan ar www.pint-of-history.wales

**DWYGYFYLCHI CYN Y TRÊN:**
Pan ddaeth trenau i Gymru newidiodd yr olwg oedd ar lawer o'n trefi'n sylweddol, ond cafodd y mapiau degwm hyn eu gwneud cyn i'r rhan fwyaf o'r rheilffyrdd gael eu hadeiladu. Mae effaith y trên ar ardal Penmaenmawr yn cael ei hastudio gan y prosiect hwn sydd wedi'i seilio yng Nhwasanaeth Archifau Conwy.

**BRODWAITH Y BETWS:**
Lleolir y prosiect hwn yn nyffrynnoedd Garw a Llynfi ger Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'n cydweithio'n agos â Chelfyddydau Cymunedol Cwm a Bro, gan anelu at ail-greu harddwch a hanes mapiau'r degwm drwy gyfrwng tecstilau.

**O DEITHIAU I DREIALON:**
Cyfnod cyffrous iawn oedd y cyfnod yn hanes Cymru pryd yr oedd mapiau'r degwm yn cael eu paratoi ac un o'r digwyddiadau mwyaf dramatig oedd gwrthryfel y Siartwyr. Nod y prosiect hwn yw adysgrifio'r doreth o ddogfennau o dreialon y Siartwyr gan eu geo-tagio i fapiau degwm y cyfnod.


Mae prosiect Cynefin o dan arweiniad CACC ac fe'i cyllidir yn bennaf gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.



**Manylion Cyswllt: Einion Gruffudd,**
**Rheolwr Prosiect Cynefin,**
**cynefin@llgc.org.uk 01970 632 842 cynefin.cymru**


BYDD 1091 O FAPIAU CYMRU YN CAEL EU DIGIDEIDDIO FEL RHAN O BROSIECT CYNEFIN



# CADW'R GORFFENNOL A'R PRESENNOL I'R DYFODOL

Mae cadwraeth a chadwedigaeth ddigidol yn diogelu deunyddiau archifol fel y byddant yn aros yn hygyrch a gall pawb sydd am eu darganfod a'u defnyddio wneud hynny, a hefyd yn sicrhau eu bod yn cael eu cadw i'w defnyddio gan genedlaethau'r dyfodol.

Proses atgyweirio dogfennau a chofnodion ffisegol yw cadwraeth; cynnal cofnodion sydd 'wedi'u geni'n ddigidol' yw Cadwedigaeth Ddigidol fel y gallant aros yn hygyrch ac yn ddarllenadwy wrth i dechnolegau newid.


Mae'r rhan fwyaf o ddaliadau archifol mewn fformat analog o hyd – hynny yw, papur, memrwn neu gyfryngau ffotograffig. Mae cadwraeth y deunydd yma'n gofyn sgiliau ac offer arbenigol ac mae gan nifer o wasanaethau archifau ar draws Cymru stiwdio gadwraeth sydd â staff proffesiynol.

Defnyddiodd Archifau Gwynedd eu Grant Cynnal Achredu CACC yn ddiweddar ar gyfer offer cadwraeth i helpu wrth atgyweirio gweithiau'r artist Reginald Hallward – casgliad o arwyddocâd cenedlaethol.

Bydd cadwraeth yn galluogi'r dogfennau i gael eu digido gan estyn y mynediad i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru at gynulleidfaoedd y tu hwnt i Gymru.

***"Mae'r offer yma wedi bod yn ddefnyddiol iawn.***

***Mae wedi ein galluogi i osod safonau manylach ar gyfer deunyddiau a phrosesau a ddefnyddir yng ngwaith cadwraeth a chadwedigaeth ein Gwasanaeth."***
**(Cadwraethwr, Archifau Gwynedd)**



Un o brif amcanion CACC yw mynd i'r afael â chadwedigaeth a chynnal a chadw cofnodion digidol. Sefydlwyd Consortiwm Cadwediaeth Ddigidol yn 2009 i gydweithio ar draws Cymru i sicrhau bod treftadaeth archifol ddigidol Cymru'n cael ei diogelu i'r dyfodol. Nodau'r Grŵp yw ymdrin â materion sy'n ymwneud â chadwedigaeth a chynnal a chadw cofnodion digidol a chefnogi gweithlu Cymru i weithio'n arloesol, ennill sgiliau a derbyn hyfforddiant i ymateb i anghenion y sector.

Gwaith y Grŵp yn ddiweddar fu gwerthuso dewisiadau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer caffael system cadwedigaeth ddigidol addas a chynaliadwy a fydd yn cadw treftadaeth archifol ddigidol Cymru i'r dyfodol.

**Cydnabuwyd gweledigaeth strategol y prosiect drwy gael ei dyfarnu yn un o'r rhai yn y rownd derfynol yng ngwobrau pwysig y Gynghrair Cadwedigaeth Ddigidol, 2014. Yn ôl yr adborth gan y panel asesu, "Astudiaeth achos ddiddorol yw hon o sut i greu cymunedau o gwmpas cadwedigaeth ddigidol, gan feithrin cydweithrediad wrth barchu'r gwahaniaethau rhwng sefydliadau a'u hamcanion."**

Mae'r Consortiwm wedi'i gefnogi gan grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru. Manylion cyswllt: Sally McInnes, slm@llgc.org.uk



# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH –
## HYRWYDDO TREFTADAETH DDIWYDIANNOL CYMRU

Mae cydweithio wedi bod yn nodwedd allweddol yng ngwaith CACC, gan ddatblygu prosiectau cynaliadwy ac effeithiol sy'n defnyddio adnoddau ac arbenigedd na fyddai gwasanaethau unigol yn gallu eu darparu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae prosiectau wedi canolbwyntio ar sicrhau bod hanes diwydiant Cymru'n cael ei gydnabod a'i hyrwyddo.


Mae 'Wales Showing Our Metal' a ariennir gan y Rhaglen Grantiau Catalogio Genedlaethol a Llywodraeth Cymru a 'Forging Ahead' a ariennir gan yr Ymddiriedolaeth Llawysgrifau Cadwraeth Genedlaethol wedi ehangu mynediad at gofnodion y prif weithfeydd dur yn ne a gogledd Cymru, yn ogystal â phapurau'r prif undeb llafur, gan roi dealltwriaeth gynhwysfawr o wahanol agweddau ar y diwydiant. Arweiniwyd y prosiectau gan Archifau Richard Burton ym Mhrifysgol Abertawe lle mae staff academaidd yn awyddus i fynd i'r afael â phrinder y gwaith yn ddiweddar ar hanes y diwydiant dur yng Nghymru.

Elwodd y gwasanaethau archifau sy'n bartneriaid ar y catalogio a gwaith cadwraeth manwl. Ochr yn ochr â hyn, enillodd gwirfoddolwyr sgiliau drwy hyfforddiant, gan wneud cyfraniad gwerthfawr i raglen lanhau ac ailbecynnu. Mae'r prosiectau wedi ymdrin â'r casgliadau a ganlyn:

- **Cydffederasiwn y Masnachau Haearn a Dur**
  Archifau Richard Burton, Prifysgol Abertawe
- **Casgliad Dur Prydain**
  Archifau Morgannwg
- **Cofnodion Gwaith Dur Brymbo**
  Archifdy Sir y Fflint ac Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam


**Arweiniodd llwyddiant y cydweithrediad hwn iddo gael ei gynnwys fel astudiaeth achos 'The Art of Partnering' yng Ngholeg y Brenin Llundain, ymchwiliad diwylliannol i'r 'rôl y mae partneriaeth yn ei chwarae wrth alluogi sefydliadau diwylliannol a ariennir yn gyhoeddus i wella safon ac amrywiaeth eu gwaith'.**

Mae'r casgliadau sy'n cael sylw yn y prosiect hwn hefyd yn gysylltiedig â daliadau pwysig eraill ar draws Cymru gan gynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith pellach o ran partneriaethau ac ymgysylltu â'r gymuned rhwng yr holl wasanaethau sy'n aelodau o CACC. Mae gwneud y casgliadau hyn yn hygyrch yn gosod y sylfeini ar gyfer ystyried cyfeiriadau newydd o ran ymchwil a datblygu partneriaethau ar draws y sector.



**BYDD DROS**
**50,000**
**O DDOGFENNAU YN CAEL EU GWELD BOB BLWYDDYN YN ARCHIFAU CYMRU**








Bu **'SANDFIELDS: CYMUNED A ADEILADWYD AR DDUR'**, prosiect rhwng Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Archifau Richard Burton, Ysgol Gyfun Sandfields ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, yn gwahodd disgyblion Blwyddyn 9 o Ysgol Gyfun Sandfields i ddefnyddio adnoddau archifol megis ffotograffau, ffilmiau, mapiau a darnau o hanes llafar sy'n gysylltiedig â'r gwaith dur â'r stad i greu arddangosfa deithiol i ddathlu hanes stad Sandfields ym Mhort Talbot.

Cynhaliwyd pedair sesiwn addysg gyda 60 o ddisgyblion o Ysgol Gyfun Sandfields i'w helpu i ddeall daearyddiaeth economaidd a hanes eu stad gan gysylltu â gofynion eu cwricwlwm Daearyddiaeth a Chelf. Talodd cyllid grant o £2,881 drwy Gynllun Grantiau 'Newid Pethe' CACC gostau cludiant mewn bysiau i'r disgyblion, cymorth addysgu ychwanegol, costau argraffu i'r arddangosfa a llogi ystafell i'r digwyddiad arddangos yn y gymuned.

Sylw un o'r athrawon oedd:
***"Mae wedi bod yn wirioneddol braf dod ynghyd â'r archifyddion – mae wir wedi gwneud i hanes ddod yn fyw i ni mewn ffordd greadigol. Roedd yn brofiad bendigedig i'r disgyblion ac i ni, yr athrawon."***



# DOD Â HANES YN FYW – CYDWEITHIO Â CHYMUNEDAU

**Adnodd diwylliannol cyfoethog yw archifau a gallant ddarparu cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed a chefndir, gwella profiad bywyd a mynd i'r afael â thlodi diwylliannol. Mae gwasanaethau archifau ar draws Cymru wedi rheoli nifer o brosiectau llwyddiannus sy'n ymgysylltu â'r gymuned, gan ddefnyddio cyllid gan gynlluniau grantiau 'Newid Pethe' a 'Chynnal Achredu' CACC i gefnogi amrywiaeth eang o brosiectau arloesol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifainc a theuluoedd.**

Dyfarnwyd grant 'Newid Pethe' o £900 i **ARCHIFAU YNYS MÔN** i ddarparu dau weithdy tecstilau i grŵp o famau ifainc a'u babanod, wedi'u seilio ar ddaliadau yn yr Archifau. Yr amcanion a gyflawnwyd yn llwyddiannus oedd ehangu mynediad i gasgliadau Archifau Ynys Môn, datblygu cynulleidfaoedd newydd a rhoi cefnogaeth i famau ifainc o ardaloedd difreintiedig yn Ynys Môn a fyddai'n elwa ar gyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a dod i gysylltiad â'u cymheiriaid.

***"Soniodd llawer nad oeddent wedi meddwl am ddod i'r archifdy o'r blaen ond ar ôl gweld pa wasanaethau rydyn ni'n eu cynnig y byddent yn hoffi dod eto"*** (Aelod o Staff yr Archifau)







Bu plant yn ymweld ag **ARCHIFAU SIR DDINBYCH** i gymryd rhan mewn gweithdai wedi'u seilio ar ddyddiadur gwraig fferm yn y Waun yn y 1860au. Bu'r gweithdai'n canolbwyntio ar ddangos sut mae hyd yn oed bywyd rhywun cyffredin yn gallu bod o ddiddordeb ac arwyddocâd hanesyddol gan bwysleisio'r pethau sy'n wahanol ac sy'n debyg i fywyd heddiw. Bu'r prosiect yn helpu i hybu ymgysylltu ag ysgolion lleol, gwneud athrawon yn fwy ymwybodol o sut gallai defnyddio adnoddau archifol gyfoethogi hanes a addysgir i'r disgyblion ac ar yr un pryd roi i'r plant brofiad difyr a diddorol.

***"Profiad braf iawn i'r staff oedd ystyried a rhoi ar waith ffyrdd newydd o ddehongli'r dogfennau a gweld sut bu'r plant yn rhyngweithio â nhw."***
(Aelod o Staff yr Archifau)

***" Digwyddiad ffantastig arall sydd wedi dod â hanes yn fyw i'r plant – diolch"***


***"Y peth gorau gen i oedd gweld y dyddiadur. Roedd yn lot o hwyl ac yn ddiddorol"***
Adborth gan blant ac athrawes a fu'n cymryd rhan ym mhrosiect Archifau Sir Ddinbych 'Dyddiadur Gwraig Fferm o'r 19eg Ganrif.'

**Defnyddiodd ARCHIFDY SIR Y FFLINT gyllid grant i sefydlu rhaglen o sesiynau i gyflwyno archifau i blant oedran cyn-ysgol.**

Gyda'r thema 'yna a rŵan' yn rhedeg drwyddi, mae'r rhaglen dan y teitl 'Teithwyr Bach mewn Amser' yn cynnwys sesiynau addysgu, canu a chwarae byrion, gan ddefnyddio hen ffotograffau a theganau modern i ddangos y ffordd y byddai pethau erstalwm. Mae'r pynciau wedi cynnwys Gwyliau Glan Môr, Trafnidiaeth a Nadolig Oes Fictoria. Wedi rhedeg nifer o gynlluniau peilot i roi cynnig ar y cysyniad, mae rhaglen gyflawn o sesiynau wedi ei chynllunio.

**Defnyddiodd ARCHIFAU MORGANNWG y cyllid o'u Grant Cynnal Achredu CACC tuag at gynnal rhaglen o ddigwyddiadau di-dâl ar sail y thema 'glan môr' i godi proffil Archifau Morgannwg ar draws y gymuned leol.**

Lansiwyd y gyfres o ddigwyddiadau ar y thema glan môr gyda dwy sioe'n cynnwys ffilm archif o'r Barri a Phenarth o'r 1930au i'r 1960au, gyda theithiau treftadaeth 'Camu'n ôl Mewn Amser' a sgyrsiau ar wyliau yn ne Cymru a 'hanes siwtiau ymdrochi' hefyd yn rhan o raglen yr haf.





## CEFNOGI EIN GWEITHLU

Cefnogir pob maes yng ngwaith gwasanaethau archifau drwy ddatblygu staff, arbenigedd a sgiliau. Amcan CACC yw cefnogi'r gweithlu i weithio'n arloesol, ennill sgiliau a derbyn hyfforddiant i ymateb i anghenion y sector. Mae Cynllun Grantiau Cynnal Achredu CACC yn cynnwys cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant perthnasol a datblygu proffesiynol.

***"Mae'r hyfforddiant wir wedi fy ngalluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n cefnogi rheoli archifau a phwysigrwydd gofalu am ddeunyddiau ffynonellau gwreiddiol"***
(Aelod o Staff Archifau)

## MEITHRIN CYNULLEIDFAOEDD

Mae CACC yn awyddus i sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn gallu elwa ar y casgliadau a ddelir gan wasanaethau sy'n aelodau ac yn cydweithio'n agos â'r sector a phartneriaid allweddol i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o dreftadaeth archifol Cymru.

Mae ymgyrchoedd wedi cynnwys 'Archwiliwch Eich Archif' ac 'Adroddwch Eich Stori' lle bu defnyddwyr yn sôn wrthym am yr hyn roeddynt wedi'i ddarganfod mewn archifau, gan adael i ni gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy ddefnyddio straeon personol.

Mae'r gwaith wedi arwain at:

- Fwy o ymwybyddiaeth o archifau gan y cyhoedd a rhanddeiliaid
- Cyfleoedd i wasanaethau roi cynnig ar weithgareddau newydd a thargedu cynulleidfaoedd newydd
- Sylw yn y cyfryngau
- Ymgysylltu drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn greadigol
- Deunyddiau hyrwyddo proffesiynol
- Cronfa o straeon defnyddwyr
- Datblygu sgiliau newydd - ***"Bu'r ymgyrch yn cynnig cyfle da i ni ddysgu mwy am ein system rheoli cyfryngau cymdeithasol e.e. dysgu sut i drefnu ac ysgrifennu negeseuon Trydar a defnyddio Storify."*** (Aelod o Staff Archifau)
- Cynnydd ym morâl staff - ***"Mi wnaethon ni stopio meddwl am ba mor anodd yw popeth ac yn lle hynny ganolbwyntio ar ychydig o feddwl 'y tu allan i'r bocs'. Roedd yn hwyl cael yr holl sylw a mwynhaon ni gydweithio mewn ffyrdd newydd. Gwych o beth oedd dangos i gydweithwyr eraill yn yr awdurdod beth rydyn ni'n ei wneud, gan ledaenu negeseuon cadarnhaol i rannau eraill o'r awdurdod ar adeg pryd mae hynny wir yn cyfrif."*** (Aelod o Staff Archifau)
- Cyfres o ffilmiau o ansawdd da
- Partneriaethau newydd

Er mwyn meithrin cynulleidfaoedd a thynnu sylw at archifau yng Nghymru, prif feysydd y gwaith yw cyswllt y cyfryngau, gweithgarwch digidol, hyrwyddo mentrau cenedlaethol, hyfforddi staff, rhedeg cynllun y Gwobrau Rhagoriaeth Marchnata a chefnogi prosiectau CACC.




## BETH YW ACHREDIAD?

Mae **Achrediad Gwasanaethau Archifau** yn gynllun safonau ansawdd i'r DU gyfan a gefnogir gan bartneriaeth sy'n cynnwys yr Archifau Cenedlaethol yn Kew a Llywodraeth Cymru drwy ei Hisadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Mae'n diffinio arferion da ac yn adnabod safonau y cytunir arnynt, gan sicrhau yn y tymor hir gasglu a chadw treftadaeth archifol y DU ynghyd â'i hygyrchedd.

Mae statws achrededig wedi'i ddyfarnu i Archifau Richard Burton Prifysgol Abertawe, Archifau Morgannwg, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archifdy Sir y Fflint, Archifau ac Astudiaethau Lleol Sir Benfro ac Archifau Gwent. Mae gwasanaethau eraill yng Nghymru wrthi'n gweithio tuag at statws achrededig.

## MYNEGAI A MAP O WASANAETHAU ARCHIFAU YNG NGHYMRU




1. Prifysgol Aberystwyth, Archifau a Chasgliadau Arbennig
2. Archifau Ynys Môn
3. Prifysgol Bangor, Archifau a Chasgliadau Arbennig
4. Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau
5. Gwasanaethau Archifau Sir Gaerfyrddin
6. Archifau Ceredigion
7. Gwasanaeth Archifau Conwy
8. Archifau Sir Ddinbych
9. Archifdy Sir y Fflint
10. Archifau Morgannwg
11. Archifau Gwent
12. Gwasanaeth Archifau Gwynedd – Archifdy Caernarfon
13. Gwasanaeth Archifau Gwynedd – Archifdy Meirionnydd
14. Llyfrgell Genedlaethol Cymru
15. Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru
16. Archifau ac Astudiaethau Lleol Sir Benfro
17. Swyddfa Archifau Sir Powys
18. Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
19. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
20. Prifysgol Abertawe, Archifau Richard Burton
21. Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg
22. Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg – Archifau Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd
23. Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam